

# Arweiniad atodol:

arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

---

**Hydref 2017**

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ▲ ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ▲ ysgolion cynradd
- ▲ ysgolion uwchradd
- ▲ ysgolion pob oed
- ▲ ysgolion arbennig
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion
- ▲ ysgolion annibynnol
- ▲ addysg bellach
- ▲ colegau arbenigol annibynnol
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned
- ▲ gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon
- ▲ Cymraeg i oedolion
- ▲ dysgu yn y gwaith
- ▲ dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© **Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.**

**Beth yw'r diben?**

Rhoi arweiniad i arolygwyr ar gyfer arfarnu dulliau i leihau effaith tlodi

**Ar gyfer pwy y mae wedi'i fwriadu?**

Arolygwyr ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, lleoliadau nas cynhelir a sefydliadau ôl-16/AB

**Pryd y dylid dechrau defnyddio'r arweiniad?**

Medi 2017

**Cynnwys****Tudalen**

<b>Arweiniad atodol</b>	<b>1</b>
<b>1 Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
<b>2 Gofynion adrodd a materion i arolygwyr eu hystyried</b>	<b>3</b>
1 Safonau	3
2 Lles ac agweddau at ddysgu	4
3 Addysgu a phrofiadau dysgu	5
4 Gofal, cymorth ac arweiniad	5
5 Arweinyddiaeth a rheolaeth	6
<b>Atodiad 1 Cyllid Grant</b>	<b>9</b>
<b>Atodiad 2: Gwasanaethau addysg llywodraeth leol (GALIL)</b>	<b>12</b>
<b>Atodiad 3: Ffynonellau gwybodaeth defnyddiol</b>	<b>14</b>
<b>Atodiad 4: Cymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim</b>	<b>14</b>

## Arweiniad atodol

Y dogfennau allweddol Estyn sy'n rhoi arweiniad ar weithgarwch arolygu yw'r llawlyfrau arweiniad arolygu ar gyfer pob sector. Fodd bynnag, rydym yn llunio arweiniad atodol hefyd i helpu arolygwyr i ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ymhellach.

Mae'r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu rhai egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol ar gyfer arolygwyr. Maent yn ymwneud â phob sector y mae Estyn yn ei arolygu, oni bai bod y dogfennau'n datgan eu bod ar gyfer sector penodol. Maent yn ymhelaethu ar agweddau penodol ar addysg/hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwysig).

Nid nod y dogfennau arweiniad atodol yw bod yn gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn drwyadl wrth ymdrin ag unrhyw agwedd benodol ar arolygiad. Fodd bynnag, gallent fod yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth iddynt ymateb i gwestiynau penodol sy'n dod i'r amlwg yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Gallai'r dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i gael dealltwriaeth o drefniadau arolygu Estyn hefyd. Gallent fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr hefyd o ran arfarnu agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae ein gwaith arolygu wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Bydd arolygwyr yn mynd ati i arolygu'n gadarnhaol, i sicrhau mai'r profiad dysgu proffesiynol gorau posibl fydd hwn ar gyfer y staff ym mhob darparwr
- Bydd arolygwyr yn arolygu ar sail dull sy'n cael ei arwain gan y dysgwr
- Bydd arolygwyr bob amser yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu
- Bydd arolygwyr yn chwilio am arfer arloesol, graff
- Bydd arolygwyr yn teilwra gweithgareddau'r arolygiad yn unol â'r amgylchiadau ym mhob darparwr, cyhyd â phosibl
- Bydd arolygwyr yn hyblyg ac yn ymateb i ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac yn defnyddio ystod gynyddol yr adnoddau a dulliau arolygu sydd ar gael
- Bydd arolygwyr yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond byddant yn adrodd ar y cryfderau a'r gwendidau allweddol yn unig ym mhob darparwr

## 1 Cyflwyniad

Y dogfennau allweddol Estyn sy'n rhoi arweiniad ar weithgarwch arolygu yw'r llawlyfrau arweiniad arolygu ar gyfer pob sector. Fodd bynnag, rydym yn llunio arweiniad atodol hefyd i helpu arolygwyr i ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ymhellach.

Mae'r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu rhai egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol ar gyfer arolygwyr. Maent yn ymwneud â phob sector y mae Estyn yn ei arolygu, oni bai bod y dogfennau'n datgan eu bod ar gyfer sector penodol. Maent yn ymhelaethu ar agweddau penodol ar addysg/hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwysig).

Nid nod y dogfennau arweiniad atodol yw bod yn gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn drwyadl wrth ymdrin ag unrhyw agwedd benodol ar arolygiad. Fodd bynnag, gallent fod yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth iddynt ymateb i gwestiynau penodol sy'n dod i'r amlwg yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Gallai'r dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i gael dealltwriaeth o drefniadau arolygu Estyn hefyd. Gallent fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr hefyd o ran arfarnu agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys arweiniad ar arolygu pa mor dda y mae ysgolion a gynhelir (cynradd, uwchradd ac arbennig) yn lleihau effaith tlodi ar ddisgyblion sydd dan anfantais.

Mae'r arweiniad yn darparu sylwebaeth a chwestiynau i arolygwyr eu hystyried wrth arfarnu tystiolaeth i bennu effaith y dulliau a ddefnyddir gan ysgolion i leihau effaith tlodi ar gyflawniad addysgol a lles disgyblion sydd dan anfantais.

Y mesur anfantais y cytunwyd arno yn genedlaethol, mewn cyd-destun ysgol, yw p'un a yw'r disgybl yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ai peidio. Fel arfer, mae ysgolion â chyfrannau uwch o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwasanaethu cymunedau sydd â lefelau uwch o anfantais gymdeithasol.

Dylid darllen yr arweiniad ar y cyd â'r ffynonellau gwybodaeth defnyddiol a restrir yn Atodiad 3.

Wrth arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, bydd arolygwyr yn ystyried:

- pa mor dda y mae disgyblion sydd dan anfantais yn cyflawni
- y cynnydd a wna disgyblion sydd dan anfantais mewn dysgu a lles o gymharu â'u manau cychwyn unigol

Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

- effaith y dulliau a gynlluniwyd i wella cyflawniad a lles disgyblion sydd dan anfantais
- pa mor dda y mae ysgolion yn arfarnu effaith y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd dan anfantais, gan gynnwys darpariaeth a ariennir trwy grantiau penodol
- y graddau y mae ysgolion yn defnyddio dull strategol a chydlynus o wella cyflawniadau a lles disgyblion sydd dan anfantais
- pa mor dda y mae ysgolion yn defnyddio adnoddau, gan gynnwys grantiau penodol ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

Mae Atodiad 2 yn amlinellu'r modd y gallai arolygwyr ystyried y maes hwn yn ystod arolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol.

## **2 Gofynion adrodd a materion i arolygwyr eu hystyried**

Fel arfer, bydd arolygwyr yn cynnwys sylwebaeth am berfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn adroddiadau arolygu. Hefyd, byddant yn adrodd ar ba mor dda y mae arweinwyr yn defnyddio grantiau penodol i wella deilliannau ar gyfer pob disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Pan fydd cryfderau neu ddiffygion pwysig, gallai arolygwyr roi sylwadau hefyd am agweddau ar les disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y grŵp hwn. Fodd bynnag, gallai arolygwyr benderfynu peidio â chynnwys sylwebaeth am ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, er enghraifft, os nad oes digon o ddisgyblion yn y grŵp hwn i lunio casgliadau dibynadwy.

### **1 Safonau**

Pan fo'n briodol, dylai arolygwyr adrodd ar y safonau a gyflawnir a'r cynnydd a wna disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. O dan faes arolygu 1.2 (safonau a chynnydd grwpiau penodol), dylai arolygwyr ystyried:

- y wybodaeth am asesiadau disgyblion wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- cynnydd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ers dechrau'r ysgol, o un sector i un arall, ac yn ystod y flwyddyn ysgol
- p'un a yw pob un o'r disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cystal ag y gallent, er enghraifft cynnydd disgyblion mwy abl a thalentog
- safonau'r gwaith a gynhrychir gan ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn gwersi a thros gyfnod
- cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar ddiwedd pob cam dysgu o gymharu â disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion eraill tebyg
- cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar ddiwedd pob cam dysgu o gymharu â disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim

Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

- p'un a yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn datblygu a chymhwyso medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh, yn ogystal â disgyblion eraill

Yng nghyfnod allweddol 4, dylai arolygwyr ystyried tueddiadau ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y canlynol:

- trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg;
- y sgôr pwyntiau wedi'i chapio
- cyfran y disgyblion sy'n cyflawni 5 gradd A\*-A mewn TGAU neu gyfwerth
- trothwy lefel 2
- trothwy lefel 1

Yn y sector ôl-16, dylai arolygwyr ystyried perfformiad myfyrwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni 3 gradd A\*-A mewn Safon Uwch neu gyfwerth, 3 gradd A\*-C mewn Safon Uwch neu gyfwerth, trothwy lefel 3 a'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach, pan fydd ysgolion wedi cyflwyno'r dadansoddiad hwn.

Pan fydd yr ysgol yn cynnig Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac yn gallu cyflwyno dadansoddiad, dylai arolygwyr ystyried perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar wahanol lefelau yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16.

## **2 Lles ac agweddau at ddysgu**

O dan faes arolygu 2.2 (Agweddau at ddysgu), dylai arolygwyr ystyried:

- cyfraddau presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac adrodd ar y rhain trwy eithriad, h.y. pan fydd tuedd glir o bresenoldeb gwan neu gryf iawn, dylent ganolbwyntio'n benodol ar gyfradd presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â disgyblion eraill, er enghraifft cyfran y disgyblion y mae eu cyfradd presenoldeb dros 95%
- p'un a yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn dangos penderfyniad, gwydnwch a dyfalbarhad yn eu dysgu
- sut mae cyfraddau gwahardd y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cymharu â grwpiau eraill i ddisgyblion yn yr ysgol a gydag ysgolion tebyg
- sut mae cyfraddau cyfranogiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn gweithgareddau allgyrsiol a theithiau ac ymweliadau yn cymharu â grwpiau eraill o ddisgyblion
- i ba raddau y mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ymgymryd â chyfrifoldebau ac yn gwneud eu safbwyntiau yn hysbys yn yr ysgol a'r gymuned ehangach, er enghraifft y gyfran sydd ar y cyngor ysgol
- sut mae agweddau at ddysgu disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cymharu â grwpiau eraill o ddisgyblion
- pa mor effeithiol y mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwella eu dysgu a'u meddwl eu hunain i symud ymlaen at y cam dysgu nesaf

### 3 Addysgu a phrofiadau dysgu

O dan faes arolygu 3, dylai arolygwyr arfarnu effaith addysgu a phrofiadau dysgu ar sicrhau cyfraddau cynnydd da a safonau uchel ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Dylent ystyried:

- effaith unrhyw strategaethau neu ddulliau penodol sydd wedi'u hanelu at wella deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- pa mor dda y mae'r ysgol yn teilwra ei chwricwlwm a'i dysgu y tu allan i'r ysgol i fodloni anghenion disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- ansawdd y ddarpariaeth i wella medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yr holl ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, nid y rhai gallu is yn unig
- pa mor effeithiol y mae rhaglenni ymyrraeth yn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion ym medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion unigol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- pa mor dda y mae'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim elwa ar brofiadau cyfoethogi a dysgu y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau addysgol
- ansawdd ac effaith addysg yn gysylltiedig â gwaith ar gyfer disgyblion o gefndiroedd difreintiedig
- p'un a oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- pa mor wybodus yw staff am anghenion disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a pha mor dda y mae athrawon yn bodloni'r anghenion hyn?
- pa mor dda y mae athrawon yn olrhain a monitro cynnydd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- pa mor dda y mae athrawon yn defnyddio gwybodaeth asesiadau i lywio'r camau nesaf mewn dysgu ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

### 4 Gofal, cymorth ac arweiniad

O dan faes arolygu 4.1 (Olrhain, monitro a darpariaeth cymorth dysgu), dylai arolygwyr ystyried:

- pa mor dda y mae'r ysgol yn olrhain a monitro cynnydd a lles, gan gynnwys presenoldeb ac ymddygiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- pa mor dda y mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau bod darpariaeth yn bodloni anghenion disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gan gynnwys y rheiny sy'n fwy abl
- pa mor dda y mae strategaethau ymyrraeth yr ysgol, mentora neu hyfforddi unigolion neu grwpiau yn cefnogi disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn eu dysgu a'u lles
- pa mor dda y mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r ysgol ac elwa ar bopeth y mae'n gallu ei gynnig
- pa mor dda y mae'r ysgol yn ymgysylltu â rhieni disgyblion sy'n gymwys i gael



Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

prydau ysgol am ddim er mwyn iddynt allu cynorthwyo eu plant yn dda a chodi unrhyw faterion a allai effeithio ar ddysgu a lles eu plentyn

- pa mor dda y mae'r ysgol yn defnyddio gwasanaethau aac asiantaethau arbenigol i gefnogi anghenion disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- pa mor dda y mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sydd ag angen dysgu ychwanegol hefyd
- pa mor dda y mae'r ysgol yn darparu mynediad at adnoddau nad ydynt efallai ar gael gartref i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, er enghraifft cyfle i ddefnyddio cyfrifiadur neu le tawel i weithio

O dan faes arolygu 4.2 (Datblygiad personol), dylai arolygwyr ystyried:

- pa mor dda y mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn ymgymryd â chyfrifoldebau ac yn cymryd rhan yn yr ysgol a'r gymuned ehangach
- pa mor dda y mae'r ysgol yn galluogi disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i gyfrannu at wneud penderfyniadau ar lefel ysgol, er enghraifft cyfleoedd i ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut, a chynrychioli eu cyd-ddisgyblion mewn grwpiau fel y cyngor ysgol
- pa mor dda y mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i wneud dewisiadau am gyrsiau yng nghyfnod allweddol 4, y chweched dosbarth ac ar gyfer addysg bellach neu addysg uwch
- pa mor dda y mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn cefnogi datblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- pa mor dda y mae'r ysgol yn rhoi sylw i ddatblygu hyder, cymhelliant a hunan-barch disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- pa mor dda y mae'r ysgol yn gwneud yr holl ddisgyblion yn ymwybodol o effaith tlodi ac yn eu cynorthwyo i nodi ffyrdd i wella eu hamgylchiadau eu hunain neu amgylchiadau pobl eraill

## **5 Arweinyddiaeth a rheolaeth**

O dan faes arolygu 5.1 (Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr), dylai arolygwyr ystyried:

- pa mor dda y mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- pa mor benderfynol yw arweinwyr wrth geisio sicrhau lles disgyblion sydd dan anfantais
- pa mor dda y mae arweinwyr yn gweithio'n strategol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles disgyblion
- pa mor dda y mae'r ysgol yn defnyddio partneriaethau a chydweithio strategol ag asiantaethau eraill i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

O dan faes arolygu 5.2 (Prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant), dylai arolygwyr ystyried:

- pa mor dda y mae arweinwyr yr ysgol yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella mewn agweddau ar ddarpariaeth a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- pa mor dda y mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio i wella deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- pa mor effeithiol yw'r cynlluniau hyn o ran gwella deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- pa mor dda y mae'r ysgol yn arfarnu effaith mentrau gwella a fwriedir i godi safonau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- pa mor dda y mae'r ysgol yn ystyried ymchwil genedlaethol i nodi dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth

O dan faes arolygu 5.3 (Dysgu proffesiynol), dylai arolygwyr ystyried:

- pa mor dda y mae'r ysgolion yn datblygu ymwybyddiaeth staff o'r cysylltiadau rhwng anfantais gymdeithasol ac economaidd a thangyflawni
- pa mor dda y mae'r ysgol yn datblygu gwybodaeth ac arbenigedd staff ar strategaethau i fodloni anghenion disgyblion sydd dan anfantais a'u teuluoedd
- pa mor effeithiol y mae arweinwyr yn hyffordd a mentora staff i weithio'n llwyddiannus gyda disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- pa mor dda y mae ysgolion yn cynorthwyo staff i elwa ar raglenni consortia rhanbarthol ac adnoddau i wella eu gwaith gyda phlant sy'n derbyn gofal

O dan faes arolygu 5.4 (defnyddio adnoddau), dylai arolygwyr fel arfer adrodd ar y graddau y mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r Grant Datblygiad Disgyblion (GAD), yn enwedig lle mae cyfanswm y cyllid yn gymharol uchel. Dylai'r farn ar ba mor dda y mae'r ysgol yn defnyddio'r cyllid hwn gyd-fynd yn agos â'r sylwebaeth ar safonau a chynnydd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn eu dysgu a'u lles. Dylai arolygwyr arfarnu'r defnydd o grantiau eraill hefyd, fel Grant Datblygu Disgyblion y Blynnyddoedd Cynnar a'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae gwybodaeth fanylach am y grantiau hyn ar gael yn Atodiad 1.

Dylai arolygwyr ystyried:

- pa mor dda y mae'r ysgol yn defnyddio cyllid grant i wella cyflawniad a lles disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gan gynnwys y rheiny sy'n cyflawni yn unol â lefelau cyfartalog neu uwchlaw
- pa mor dda y mae'r ysgol yn ystyried ei chyd-destun ac anghenion ei dysgwyr wrth gynllunio'r gwariant, er enghraifft os yw disgyblion ar ei hôl hi yn ieithyddol pan fyddant yn ymuno â'r ysgol
- pa mor dda y mae'r ysgol yn defnyddio adnoddau i fodloni anghenion disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- pa mor dda y mae'r ysgol yn arfarnu effaith gwario grant ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- pa mor dda y mae arweinwyr yn rhannu adnoddau ac arbenigedd, o fewn ei

Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

chlwstwr, a thu hwnt, i wella'r deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

- pa mor dda y mae'r ysgol yn elwa ar gyllid rhanbarthol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal
- pa mor dda y mae ysgolion a lleoliadau yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod anghenion dysgwyr sydd â chofrestriad deuol yn cael eu bodloni ar draws lleoliadau
- pa mor dda y mae arweinwyr mewn ysgolion uwchradd yn sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ymyrraeth gynnar ac yn cynorthwyo disgyblion sydd dan anfantais trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol, er enghraifft yn unol â'r rhaniad 60/40 a argymhellir ar gyfer cyfnodau allweddol 3 a 4 yn y drefn honno

## Atodiad 1: Cyllid Grant

Ym mis Ebrill 2017, ailenwyd y Grant Amddifadedd Disgyblion yn Grant Datblygiad Disgyblion, i adlewyrchu'r bwriad i gefnogi carfan ehangach o ddysgwyr a phwyslais ar ddilyniant dysgwyr ochr yn ochr â chau'r bwlch o ran cyrhaeddiad.

Bwriad y Grant Datblygu Disgyblion yw cefnogi ysgolion i oresgyn y rhwystrau ychwanegol y mae dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn eu hwynebu sy'n eu hatal nhw rhag cyflawni, yn ogystal â'u cyfoedion, beth bynnag fo'u gallu. Ym mis Mawrth 2017, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at bob ysgol i gadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyllid y Grant Datblygu Disgyblion ac i ddarparu gwybodaeth gyfoes ychwanegol am newidiadau i ddyrannu cyllid y Grant Datblygu Disgyblion a defnyddiau cymwys. Yn gryno, mae'r newidiadau hyn fel a ganlyn:

- newid yr enw i'r Grant Datblygu Disgyblion
- parhau i ariannu disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt trwy'r ffaith eu bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu ddisgyblion sy'n derbyn gofal mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ar gyfradd o £1,150 fesul dysgwr ar gyfer 2017-2018
- dyblu Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar i £600 ar gyfer dysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen
- ymestyn argaeledd y Grant Datblygu Disgyblion i gefnogi plant tair oed sy'n derbyn gofal sydd yn y Cyfnod Sylfaen ar yr un gyfradd â'r holl ddysgwyr eraill hynny sy'n derbyn gofal
- ymestyn cyllid i ddysgwyr sydd mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, yn hytrach na'r rheiny sydd mewn unedau cyfeirio disgyblion yn unig
- rhoi sicrwydd am yr ymrwymiad i'r Grant Datblygu Disgyblion am weddill tymor y Cynulliad hwn (nid yw cyfanswm y cyllid wedi'i sicrhau)
- gweithio gyda'r consortia addysg rhanbarthol i gryfhau trefniadau rheoli i gefnogi ysgolion uwchradd i gyflawni dyhead o fuddsoddi o leiaf 60% o'r Grant Datblygu Disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 i fynd i'r afael â rhwystrau rhag dysgu wrth iddynt gael eu nodi

Mae copi o lythyr ysgrifennydd y cabinet a'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â pholisi'r llywodraeth ar gael [yma](#)

Ym mis Mawrth 2015, lluniodd Llywodraeth Cymru Grant Datblygiad Disgyblion – Arweiniad hanfodol, sydd ar gael yn <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150323-pdq-essential-guidance-cy.pdf>. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio'r arweiniad hwn.

Mae'r arweiniad yn glir ynglŷn â'r hyn y gellir, a'r hyn na ellir, defnyddio'r Grant Datblygiad Disgyblion ar ei gyfer.

### **Beth mae'n rhaid i ysgolion ei wneud**

Rhaid i bob ysgol gyhoeddi eu dyraniad o'r Grant Datblygu Disgyblion ac amlinellid o'u cynlluniau diweddaraf i ddefnyddio'r cyllid i wella deilliannau ar gyfer plant difreintiedig. Pan na fydd gan ysgol wefan ddynodedig, rhaid iddi drefnu bod y wybodaeth ar gael trwy wefan yr awdurdod lleol neu'r consortiwm neu fel rhan o wybodaeth yr ysgol wedi'i chyhoeddi mewn copi caled.

Pan fydd gan ysgol lai na phump o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, dylai gyhoeddi datganiad am y defnydd o'r grant, a'i effaith, ond ni ddylai ddatgelu nifer y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim na chyfanswm dyraniad y Grant Datblygu Disgyblion.

Nid oes rhaid i ysgolion greu cynllun ar wahân ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion. Gellir ei gynhyrchu fel rhan o gynllun gwella ysgol ehangach.

### **Defnyddiau cymwys ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion**

Er bod rhaid defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i gynorthwyo dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, dysgwyr sy'n derbyn gofal a dysgwyr sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol, nid oes rhaid olrhain y grant yn ôl dysgwyr unigol. Dim ond dysgwyr o'r grwpiau hyn a all gael cymorth a ariennir gan y Grant Datblygu Disgyblion o raglenni unigoleddig fel Dal i Fyny, ond gellir defnyddio'r grant ar gyfer strategaethau ysgol gyfan hefyd y mae eu budd i ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a dysgwyr sy'n derbyn gofal yn anghymesur. Mae hyn yn cynnwys talu am siaradwyr a hyfforddwyr allanol ar gyfer diwrnodau HMS gan ganolbwyntio ar gydnabod a lliniaru effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol; diwrnodau cynllunio ar y cyd ar gyfer athrawon dosbarth a chynorthwywyr addysgu i gynorthwyo dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a dysgwyr sy'n derbyn gofal; neu ddatblygu systemau olrhain priodol i nodi anghenion penodol ac arfarnu effaith ymyriadau ar gyfer y grwpiau hyn o ddysgwyr.

I gyflawni'r deilliannau uchod, dylai ysgolion:

- fabwysiadu dull strategol ysgol gyfan o fynd i'r afael ag anfantais
- gwneud defnydd deallus o systemau olrhain data i nodi anghenion dysgwyr
- targedu ymyriadau, monitro effaith ac arfarnu effeithiolrwydd
- mabwysiadu strategaethau sy'n cynnwys rhieni a gofalwyr yn addysg dysgwyr
- ennyn diddordeb cymunedau ym mywyd yr ysgol a'r ysgol ym mywyd y gymuned
- gwella presenoldeb
- cydnabod y berthynas rhwng lles a safonau ac addasu arfer i adlewyrchu hyn
- gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd a gyda sefydliadau eraill
- defnyddio ymyriadau y mae'n amlwg mai nhw yw'r rhai mwyaf effeithiol

Yn ogystal â'r Grant Datblygu Disgyblion, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid trwy Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer dysgwyr cymwys yn y meithrin a'r derbyn.

Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

Ym mis Gorffennaf 2015, lluniodd Llywodraeth Cymru arweiniad ar ddefnyddio Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar, sydd i'w weld yn <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150720-eypdg-cy.pdf>

Mae Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar yn ymestyn hawl i gyllid grant a ddyrennir trwy'r Grant Datblygu Disgyblion i ddisgyblion mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn mewn addysg a ariennir yn y Cyfnod Sylfaen. Dylid defnyddio Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar i gael effaith barhaus ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr sydd dan anfantais. Mae consortia rhanbarthol yn gyfrifol am sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio at ddibenion y caiff ei fwriadu ar eu cyfer.

Yn yr un modd â'r Grant Datblygu Disgyblion, nod Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar yw cyflymu cyfradd cyrhaeddiad plant o bob gallu o gartrefi incwm isel i'w helpu i gyrraedd eu llawn botensial.

Mae'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn cefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn addysg orfodol. Dylai gael ei ddefnyddio gan gonsortia addysg rhanbarthol i gyflwyno ymyriadau hyblyg sydd wedi'u targedu'n well yn strategol ar sail ranbarthol. Mae hyblygrwydd wedi cael ei gynnwys yn y telerau a'r amodau er mwyn i gyllid allu cefnogi ymyriadau sydd wedi'u hanelu at blant sy'n derbyn gofal sydd wedi cael eu mabwysiadu o fod mewn gofal neu sy'n destun gorchymyn gwarchodaeth arbennig.

Mae gwybodaeth ddefnyddiol am y Grant Datblygu Disgyblion ar gael [yma](#)

## Atodiad 2: Gwasanaethau addysg llywodraeth leol (GALIL)

Mae'r ddogfen **Grant Datblygiad Disgyblion – Canllawiau hanfodol** (Llywodraeth Cymru, 2015) yn nodi y bydd ceisiadau grant yn cael eu talu trwy'r consortia gwella ysgolion rhanbarthol ddwywaith y flwyddyn. Caiff y grant cyfan ei ddirprwyo i ysgolion/lleoliadau blynyddoedd cynnar, ac eithrio yn achos yr elfen plant sy'n derbyn gofal, fydd yn cael ei rheoli'n rhanbarthol gan y consortia.

Mae'r ddogfen hefyd yn datgan y bydd ymgynghorydd her consortiwm rhanbarthol ysgol:

- yn cynorthwyo ysgolion i gynllunio'n effeithiol, gan wneud yn siwr bod cynlluniau datblygu ysgol yn amlinellu uchelgeisiau a chynlluniau clir ar gyfer defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i wella cyrhaeddiad plant o gefndiroedd difreintiedig
- yn sicrhau bod ysgolion yn monitro ac arfarnu effaith eu strategaethau
- yn herio ysgolion i osod targedau ymestynnol
- yn adfer y grant pan fydd tystiolaeth ei fod wedi cael ei wario'n amhriodol neu'n aneffeithiol

Mae'r consortia rhanbarthol yn gyfrifol am ddatblygu dull strategol o ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn effeithiol. Er bod y cyllid hwn yn cael ei ddirprwyo i'r consortia, mae awdurdodau lleol yn cadw cyfrifoldeb am blant sy'n derbyn gofal yn eu rôl fel rhiant corfforaethol.

Trywyddau ymholi a awgrymir ar gyfer cyfarfod â, neu arolygu, GALIL:

- Pa drefniadau sydd ar waith i fonitro perfformiad, cynnydd a lles disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim?
- A ydych chi'n cymharu eu perfformiad ag awdurdodau tebyg eraill a data cenedlaethol arall? Sut mae eich perfformiad yn cymharu?
- Beth allwch chi ei ddweud wrthym am berfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o fewn yr awdurdod ym mhob cam dysgu?
- A ydych chi'n defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio'n strategol i wella darpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion sydd dan anfantais? Os felly, sut?
- Beth yw'r strategaeth gyffredinol? Sut mae'r awdurdod yn sicrhau bod y strategaeth hon yn cyrraedd yr ysgolion? A yw hyn wedi ei gyfyngu i rai ysgolion, neu a gaiff y strategaeth hon ei deall yn dda gan bawb?
- Pa mor effeithiol yw'r strategaeth hon, a beth yw ei heffaith ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion?
- A oes unigolyn dynodedig sydd â chyfrifoldeb am fonitro perfformiad y grŵp hwn neu ai'r consortiwm rhanbarthol sydd â chyfrifoldeb am hyn? Os mai'r consortiwm rhanbarthol sydd â chyfrifoldeb amdano, sut mae'r awdurdod yn gwybod bod anghenion ei ddisgyblion yn cael eu bodloni?
- Pa mor llwyddiannus fu'r rôl hon o ran gwella deilliannau? A allwch chi roi enghreifftiau penodol?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod yr holl ysgolion yn cael y cymorth a'r her y mae eu hangen arnynt mewn perthynas â gwella darpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion sydd dan anfantais?

Arweiniad atodol: arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

- Pa gymorth/datblygiad proffesiynol y mae arweinwyr ysgol, athrawon a staff cymorth yn ei dderbyn? Pa mor effeithiol yw hyn o ran gwella deilliannau?
- Sut ydych chi'n monitro'r defnydd o Grant Datblygu Disgyblion y Blynnyddoedd Cynnar/ y Grant Datblygu Disgyblion?
  - i) Pa mor effeithiol y mae ysgolion yn eich awdurdod yn defnyddio cyllid grant ar gyfer disgyblion sydd dan anfantais a sut ydych chi'n gwybod? At ei gilydd, beth yw'r cryfderau a'r gwendidau?
  - ii) A oes trefniadau i fonitro ansawdd ac effeithiolrwydd cynlluniau i wario'r Grant Datblygu Disgyblion? A ydych chi'n monitro unrhyw arfarniadau o wariant grant blaenorol?
  - iii) Beth sy'n digwydd os nad yw ysgol yn defnyddio'r cyllid yn briodol?
  - iv) Beth sy'n digwydd os oes arfer hynod o dda?
  - v) A allwch chi nodi unrhyw arfer hynod dda o ran defnyddio cyllid grant?
  - vi) A oes unrhyw drefniadau i gefnogi ysgolion â symiau llai o gyllid grant i gydweithio i uchafu effaith y cyllid?
- A oes unrhyw enghreifftiau o arfer arloesol i gynorthwyo dysgwyr sy'n anos eu cyrraedd, fel disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol? Unrhyw enghreifftiau o bartneriaethau arloesol rhwng ysgolion a sefydliadau ieuencid/ gwirfoddol?
- Rydym yn ymwybodol mai'r consortiwm rhanbarthol sydd â'r cyfrifoldeb cynllunio strategol am y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, yr awdurdod yw'r rhiant corfforaethol o hyd. Gan gofio hyn, sut ydych chi'n monitro'r cynllunio a'r ddarpariaeth trwy'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd yn eich gofal?
- Pa mor effeithiol ydych chi'n defnyddio'r Grant Datblygu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a sut ydych chi'n gwybod?

#### Manylion posibl

- Beth yw'r cyfraddau absenoldebau parhaus ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim? A yw'r awdurdod yn monitro'r rhain? Beth ydych chi'n ei wneud i gefnogi/ herio ysgolion i leihau cyfraddau absenoldebau parhaus ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim?
- Pa drefniadau sydd ar waith i wella ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned yn eich ysgolion?
- Pa gymorth y mae disgyblion yn ei gael yng nghyfnod allweddol 3? Sut ydych chi'n cefnogi/ herio ysgolion i wario yn unol â'r rhaniad 60%/40%?
- Pa strategaethau ymyrraeth gynnar sydd gennych i gefnogi'r grŵp hwn o ddisgyblion a theuluoedd?
- Beth mae eich gwybodaeth am ddisgyblion wrth iddynt gychwyn yn ei ddweud wrthyhych am ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim pan fyddant yn dechrau'r ysgol? Pa ddefnydd ydych chi'n ei wneud o'r wybodaeth hon?
- A ydych chi'n cymryd rhan mewn unrhyw bartneriaethau ymchwil, er enghraifft gyda phrifysgol? Beth sydd wedi digwydd o ganlyniad?



### **Atodiad 3: Ffynonellau gwybodaeth defnyddiol**

Gellir gweld cyhoeddiadau Estyn sy'n ymwneud â thlodi ac anfantais gymdeithasol yn: [https://www.estyn.llyw.cymru/mynd-ir-afael-a-difreintedd?\\_ga=2.237176898.338180279.1503565443-1927089570.1462274357](https://www.estyn.llyw.cymru/mynd-ir-afael-a-difreintedd?_ga=2.237176898.338180279.1503565443-1927089570.1462274357)

### **Atodiad 4: Cymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim**

Gallai plant y mae eu rhieni'n derbyn y taliadau cymorth canlynol fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceiswyr Gwaith ar Sail Incwm
- Cymorth o dan Ran VI Deddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gysylltiedig ag Incwm
- Credyd Treth Plentyn, ar yr amod nad oes ganddynt hawl i Gredyd Treth Gwaith ac nid yw eu hincwm blynyddol, yn ôl asesiad gan Gyllid a Thollau EM, yn fwy nag £16,190
- Elfen warant Credyd Pensiwn y Wladwriaeth
- 'Parhad' mewn Credyd Treth Gwaith – y taliad a gaiff rhywun am bedair wythnos arall ar ôl iddynt beidio â bod yn gymwys ar gyfer Credyd Treth Gwaith
- Credyd Cynhwysol

Dyfernir prydau ysgol am ddim pan fydd y rhiant neu'r disgybl yn bodloni'r meini prawf cymhwyster a bod cais am brydau ysgol am ddim wedi cael ei wneud gan, neu ar ran, y rhiant.

Gallai pobl ifanc sy'n derbyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gysylltiedig ag Incwm, Credyd Cynhwysol, Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceiswyr Gwaith ar Sail Incwm, yn eu hawl eu hunain, fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim hefyd.

Bydd angen i'r plentyn fynychu'r ysgol yn amser llawn hefyd, sy'n gallu cynnwys diwrnodau llawn yn y dosbarth meithrin a myfyrwyr chweched dosbarth.